NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Sofosbuvir-velpatasvir-voxilaprevir i drin hepatitis C cronig

21 Chwefror 2018

Mae sofosbuvir–velpatasvir–voxilaprevir (Vosevi) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl i oedolion sydd â hepatitis C (gyda sirosis yr afu digolledol neu hebddo). Gweler tabl 1.

**Tabl 1 Sofosbuvir–velpatasvir–voxilaprevir ar gyfer trin hepatitis C cronig (gyda sirosis yr afu digolledol neu hebddo)**

| Genoteip hepatitis C | Hanes triniaeth | Argymhelliad |
|---|---|---|
| 1 i 6 | Cyffuriau gwrthfeirysol blaenorol sy'n gweithredu'n uniongyrchol | Argymhellir am 12 wythnos |
| 3 | Dim cyffuriau gwrthfeirysol sy'n gweithredu'n uniongyrchol | Argymhellir am 8 wythnos |

Os nad ydych yn gymwys i gael sofosbuvir–velpatasvir–voxilaprevir, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ymddiriedolaeth Hepatitis C, 020 7089 6221
- HIV-i-Base, 0208 616 2210
- Terrence Higgins Trust, 0808 802 1221
- Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain, 0800 652 7330
- Liver4Life, 0800 074 3494

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2843-9

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights